**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/404/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2023.

Mewn cysylltiad â Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, nodaf eich sylw bod ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dweud y bydd "bennir" nawr yn cael ei ddefnyddio ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen, tra bod "ganfyddir"/"ganfod" wedi eu defnyddio yn y ddarpariaeth gyfatebol yng Ngorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023. Wedi ystyried ymhellach bydd y tri Offeryn Statudol yn cael eu diwygio fel bod "bennir" yn cael ei ddefnyddio yn y ddarpariaeth hon er cysondeb.

Mewn cysylltiad â pharagraffau 25(3)(c) a 26(c) o'r Atodlenni i'r tri Offeryn Statudol, derbyniwn eich sylwadau nad oedd yr ymateb a ddarparwyd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn cysylltiad â Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023 yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r Offeryn Statudol wedi ei ddrafftio. Wedi ystyried ymhellach, penderfynwyd y bydd paragraffau 25(3)(c) a 26(c) o'r Atodlen i'r Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023 yn cael eu diwygio er mwyn bod yn gyson â'r ddau Offeryn Statudol arall, felly defnyddir "bennu"/"bennu'r" yn y darpariaethau hynny yn lle "ganfod"/"nodi'r".

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r diwygiadau y cyfeirir atynt uchod wedi eu nodi isod:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023** | Ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen bydd "ganfyddir" yn cael ei ddisodli gan "bennir" | Ym mharagraff 25(3)(c) o'r Atodlen bydd "ganfod" yn cael ei ddisodli gan "bennu" | Ym mharagraff 26(c) o'r Atodlen bydd "nodi'r" yn cael ei ddisodli gan "bennu'r" |
| **Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023** | Ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen bydd "ganfyddir" yn cael ei ddisodli gan "bennir" | | |
| **Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023** | Ym mharagraff 11(1) o Atodlen 2 bydd "ganfod" yn cael ei ddisodli gan "bennir" | | |

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change